

Minutes of the **Finance and General Purposes Committee Meeting** held at Penrhyn Hall, Ffordd Gwynedd, **Monday 1 April 2019** at 7.20 pm

PRESENT: - His Worship the Mayor Councillor John Wynn Jones
Councillors Ifan James (Vice-Chairman) J M Martin Gareth Roberts
D Fearnley Enid Parry Salik Rahman
D Hainge G O Roberts Luke Tugwell
Owen Hurcum

Officer :- Mr Ian Jones, Town Clerk

232/18 APOLOGIES

Apologies for absence were received from The Deputy Mayor Councillor John Wyn Williams and Councillors Les Day, Medwyn Hughes, Keith Jones, Elin Walker Jones, Huw Wyn Jones, Colin King, and Mair Rowlands.

233/18 DECLARATION OF FINANCIAL INTEREST OR PERSONAL CONNECTION - None

234/18 URGENT MATTERS - None

235/18 INDEPENDENT REMUNERATION PANEL FOR WALES

The Town Clerk informed Members that the Final Report of the Panel 2018/19 had been published with no significant changes for Town and community Council.

RESOLVED: that the report be received and the scheme in place for Member expenses remain unchanged.

236/18 UNDERGROUND NUCLEAR WASTE DUMP IN WALES

The Town Clerk read out a letter from Jill Evans MEP, Chair of CND Cymru about communities having to volunteer to host an underground nuclear waste dump (Geological Disposal Facility). Any volunteering community would have a financial incentive to do so.

RESOLVED: that the City Council will not volunteer to host such a facility.

237/18 MEMBERSHIP OF ONE VOICE WALES 2019/20

Members considered the renewal of subscription for 2019/20 to this body and expressed some concern at the cost and whether it represented value for money in respect of the service received and Member benefits. It was unclear from the request how the calculation of £2014 figure had been arrived at.

RESOLVED that the Town Clerk request clarification from OVW on the estimated chargeable dwellings at 6294 as opposed to the Council Tax Base of 3885.63 and report back with findings.

238/18 FINANCE

a) Invoices for Payment - It was noted that invoices as detailed on the schedule totalling £12,402.82 had been approved.

RESOLVED that the payments be noted.

b) Accounts at Month 11 2018/19 - The Town Clerk presented the accounts for information and comment.

RESOLVED: the Accounts be received and noted as set out in the report.

239/18 EXCLUSION OF PRESS AND PUBLIC

RESOLVED: That under the provisions of the Public Bodies (Admission to Meetings) Act 1960, members of the press and public be excluded from the meeting due to the confidential nature of their business to be transacted.

240/18 GARTH PIER

The Town Clerk updated the Committee in respect of the following:

Landing Stage (Dolphin) - This amendment would require Listed Building Consent and CADW approval prior to which a detailed survey was required to justify the work.

Grants - Expressions of Interest had been completed and submitted to the Heritage Lottery Fund and CADW. A crowdfunding scheme on a pier recently had not created a great interest or donation. This would be done shortly to establish some fund-raising.

Best Practice Piers - Bangor (Garth) Pier had been selected for a short-list of best practice piers in the UK in terms of operation and management. This was a Coastal Revival Study by Bournemouth University.

Pavilion - There were some legal issues to be resolved, but once the clearance, was achieved also in terms of safety, a future strategy could be implemented.

Welsh Government - a letter had been submitted by the Mayor to the Welsh Government Minister for Culture to request any help possible regarding the Pier.

Delays - Some delays had been encountered in terms of timescales, works and other distractions.

Kiosks - Currently six kiosks were rented out. One undergoing significant repair works.

Other Property Matters - The Town Clerk reported various matters appertaining to the City Council's land ownership at Dargie Fields and Penrhyn Arms Woods and that some consideration was required as to the policy of the City Council in respect of land holdings for the future.

RESOLVED: that the sub-group already set up to deal with Community Assets be appointed to deal with all property matters. The Membership was Councillors D Hainge, John Wynn Jones, Keith Jones, Nigel Pickavance, Luke Tugwell and John Wyn Williams.

241/18 WALES AUDIT OFFICE REPORT

The Town Clerk reported details of the Reports on Town and Community Councils in Wales re: Internal Audit and Financial Management and Governance. The City Council had no citing's within these reports.

It was also reported that from 2021 BDO would no longer be the External Auditor as the WAO would take all external audits in-house.

The Meeting finished at 7.55pm

Cofnodion y **Pwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol** a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn, Ffordd Gwynedd, **Nos Lun 1 Ebrill 2019** am 7.20 y.h.

PRESENNOL :- Ei Deilyngdod y Maer y Cynghorydd John Wynn Jones

| | | | |
|------------|---------------------------|-------------|----------------|
| Cynghorwyr | Ifan James (Is-Gadeirydd) | J M Martin | Gareth Roberts |
| | D Fearnley | Enid Parry | Salik Rahman |
| | D Hainge | G O Roberts | Luke Tugwell |

Owen Hurcum

Swyddog :- Mr Ian Jones, Clerc y Dref

232/18 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Dirprwy Faer, y Cynghorydd John Wyn Williams a'r Cynghorwyr Les Day, Medwyn Hughes, Keith Jones, Elin Walker Jones, Huw Wyn Jones, Colin King, a Mair Rowlands.

233/18 DATGANIAD O DDIDDORDEB ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL

234/18 MATERION BRYS - Dim

235/18 PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL

Hysbysodd Clerc y Dref yr Aelodau fod Adroddiad Terfynol y Panel 2018/19 wedi cael ei gyhoeddi ac nad oedd unrhyw newidiadau sylweddol i Gynghorau Tref a Chymuned.

PENDERFYNWYD: derbyn yr adroddiad ac y byddai'r cynllun sydd yn ei le ar gyfer treuliau Aelodau yn aros yr un fath.

236/18 CLADDU GWASTRAFF NIWCLEAR DAN Y DDAEAR YNG NGHYMRU

Darllenodd Clerc y Dref lythyr gan Jill Evans ASE, Cadeirydd CND Cymru, am y ffaith bod gofyn i gynghorau wirfoddoli i letya claddfa gwastraff niwclear dan ddaear (Cyfleuster Gwaredu Daearegol). Byddai unrhyw gymuned sy'n gwirfoddoli yn cael cymhelliad ariannol i wneud hynny.

PENDERFYNWYD: na fydd Cyngor y Ddinas yn gwirfoddoli i letya cyfleuster o'r fath.

237/18 AELODAETH UN LLAIS CYMRU 2019/20

Bu'r Aelodau'n ystyried adnewyddu'r tanysgrifiad ar gyfer 2019/20 i'r corff hwn a mynegwyd rhywfaint o bryder am y gost a holwyd a oedd yn cynnig gwerth am arian o safbwynt y gwasanaeth a geir a'r manteision i'r Aelodau. Nid oedd hi'n amlwg o'r cais sut roedd y swm o £2014 wedi cael ei bennu.

PENDERFYNWYD fod Clerc y Dref i ofyn am eglurhad gan Un Llais Cymru ar yr amcangyfrif anheddau trethadwy ar 6294 yn hytrach na Sylfaen y Dreth Gyngor o 3885.63 ac adrodd yn ôl gyda'r canfyddiadau.

238/18 CYLLID

a) Anfonebau i'w Talu – Nodwyd fod anfonebau fel y manylwyd arnynt ar y rhestr yn dod i gyfanswm o £12,402.82 wedi cael eu cymeradwyo.

PENDERFYNWYD nodi'r taliadau.

b) Cyfrifon ar Fis 11 2018/19 – Cyflwynodd Clerc y Dref y cyfrifon er gwybodaeth ac i gael sylwadau.

PENDERFYNWYD derbyn y Cyfrifon a'u nodi fel y'u gosodwyd yn yr adroddiad.

239/18 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD: O dan ddarpariaethau Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, dylai'r wasg a'r cyhoedd gael eu gwahardd o'r cyfarfod oherwydd natur gyfrinachol y materion i'w trafod.

240/18 PIER GARTH

Rhoddodd Clerc y Dref y diweddaraf i'r Pwyllgor am y canlynol:

Y Lanfa (Dolffin) – Byddai'r newid hwn angen Caniatâd Adeilad Rhestredig a chymeradwyaeth CADW a chyn hynny roedd angen arolwg manwl i gyfiawnhau'r gwaith.

Grantiau - Cwblhawyd Mynegiannau o Ddiddordeb ac anfonwyd y rhain i Gronfa Dreftadaeth y Loteri a CADW. Nid oedd cynllun cyllido torfol diweddar ar bier wedi creu llawer o ddiddordeb na chyfraniadau. Byddai hyn yn cael ei wneud cyn bo hir er mwyn dechrau codi arian.

Pierau Arfer Gorau - Roedd Pier Bangor (Garth) wedi cael ei ddewis ar restr fer o bierau arfer gorau yn y DU o safbwynt gweithredu a rheoli. Astudiaeth Adfywio Arfordirol oedd hon gan Brifysgol Bournemouth.

Y Pafiliwn – Roedd rhai materion cyfreithiol i'w datrys, ond wedi cael cliriad, hefyd o ran diogelwch, gellid gweithredu strategaeth ar gyfer y dyfodol.

Llywodraeth Cymru – roedd y Maer wedi anfon llythyr at Weinidog Diwylliant Llywodraeth Cymru i ofyn am unrhyw gymorth posibl gyda'r Pier.

Oedi – Bu rhywfaint o oedi o ran amserlenni, gwaith ac ymyriadau eraill.

Ciosgau - Ar hyn o bryd roedd chwe chiosg yn cael eu gosod ar rent. Mae gwaith trwsio sylweddol yn cael ei wneud ar un ohonynt.

Materion Eraill yn ymwneud ag Eiddo – Adroddodd Clerc y Dref ar faterion amrywiol a oedd yn ymwneud a pherchnogaeth tir Cyngor y Ddinas ar Gaeau Dargie a Choedwig Penrhyn Arms. Dywedodd fod angen ystyried beth fyddai polisi Cyngor y Ddinas o safbwynt deiliadaethau tir yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD: fod yr is-grŵp a sefydlwyd yn barod i ddelio ag Asedau Cymunedol yn cael ei benodi i ddelio â holl faterion eiddo. Yr Aelodaeth oedd y Cynghorwyr D Hainge, John Wynn Jones, Keith Jones, Nigel Pickavance, Luke Tugwell a John Wyn Williams.

241/18 ADRODDIAD SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Adroddodd Clerc y Dref fanylion yr Adroddiadau ar Gynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru parthed Archwilio Mewnol a Rheolaeth a Llywodraethu Ariannol. Nid oedd Cyngor y Ddinas yn cael ei grybwyll yn yr adroddiadau hyn.

Adroddwyd hefyd nad BDO fyddai'r Archwilydd Allanol o 20201 gan y byddai Swyddfa Archwilio Cymru yn delio â phob archwiliad allanol eu hunain.

Daeth y Cyfarfod i ben am 8.30 p.m.